

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Orffennaf 2023

Presennol– Ffiona Jones Cadeirydd,, Neil Pringle, Janet Charlton, Catherine Williams, Chris Jones
Caerwyn Roberts Clerk.

Ymddiheuriadau Bedwyr ap Gwyn, Cyng Elisabeth Roberts.

Ethol Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Neil Pringle yn Is gadeirydd y Cyngor.

Datgan diddordeb – Dim datganiad.

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod 12fed Fehefin 2023

Materion yn codi

(1.) Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed Pont-y-Pair

Eglurodd y clerc bod amcan bris arall wedi ei dderbyn ar gyfer astudiaeth dichonoldeb, ond bod angen un ymhellach. Nodwyd hefyd sylwadau gan Mr Chris Jones, y clerc i anfon gwahoddiad i Mr Jones i gyfarfod er mwyn iddo gael trafod ei bryderon.

Penderfynwyd hefyd ceisio sylwadau gan APCE ar gyfer cais cynllunio

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts wedi cysylltu gyda'r Gymdeithas Tai a'i bod yn bwriadu galw yn y swyddfa yn Ninbych

[1.3] Materion Parcio Bro Gethin

Nodwyd y wybodaeth gan Mari E M Mathews yn amlinellu diffyg diddordeb ar gyfer gosod tendr. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn ceisio diweddariad erbyn y cyfarfod nesa.

[1.4] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd yn siomedig nad oedd Cyngor B S Conwy yn ymateb i'r pryderon. Y clerc i gysylltu gyda CADW ynglŷn â'r mater. Nodwyd bod y Cyng E Roberts yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned.

[1.5] Dyn mewn Fan

Eglurodd y clerc er iddo anfon nodyn yn atgoffa Edward Jones APCE ynglŷn â'r daflen gwaith. Nid oedd ateb wedi ei dderbyn.

[1.6] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Ffens / Ystafelloedd Newid

Nodwyd y tri amcan bris ar gyfer cegin newydd yn adeilad y clwb peldroed fel a ganlyn ;

[a] C Evans £6180.00. [b] Dylan Evans £6784.00 [c] Tŷ £6798.00.

Gan nodi bod rhaid i'r Cyngor gyd fynd a rheol S 137 pan yn gwneud cyfraniad, y clerc i geisio arweiniad gan Archwilio Cymru.

[1.7] Safle We'r Cyngor

Y clerch i drefnu cyfarfod gyda Haf Jones/Ffiona Jones Cadeirydd, a Nick Ferguson i drafod uwchraddio'r safle

[1.8] Mynwent Erw Hedd/Trefniadau Claddu

Dywedodd y clerch ei fod yn disgwyl gair pellach gan Gyngor BS Conwy.

[1.9] Archwiliad Asbestos, Neuadd Goffa/Bwthyn Bryn-y-Bont

Nodwyd bod cais wedi ei wneud gyda Chyngor BS Conwy i ymgymryd archwiliad. Y clerch i geisio diweddariad .

[2] Byrddau'n Cysgodi Lleoliad Gwag wrth Westy'r Pont-y-Pair.

Deallwyd nad oedd y Cyng Elisabeth Roberts wedi derbyn ateb gan Alys Tatum Swyddog Gorfodaeth y Parc Cenedlaethol.

Y clerch i gysylltu gyda Robin Millar AS a hefyd Janet Finch Saunders AC

[2.1] Teithio Llesol

Nodwyd bod Cyngor BS Conwy yn trefnu cyfle i'r cyhoedd alw heibio

[2.2] Hanging Pizzeria Ffordd yr Orsaf

Deallwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts wedi cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ac y dylai gwahoddiad gael ei wneud i Brif Weithredwr y Parc gwrdd y Cyngor Cymuned ynglyn a'r mater.

Y brif Agenda

[2.3] Penodiad

[a] Nodwyd y ddau benodiad canlynol, Mrs Hazel Barclay, Plas yn Rhos, Capel Garmon a Ms Anna Brown, Llwyn y Gog, Betws-y-Coed I swydd rannog ar gyfer Datblygu'r Gymuned. Y cytundeb gwaith am 12 mis yn unig i ddechrau ar y 24ain Orffennaf 2023, y cyflog yn unol â threfniant telerau gwaith NJC

[b] Penodiad Clerch y Cyngor. Nodwyd penodiad Mrs Haf Jones, Tyn-y- Wern, Pentrefoelas. Y cyflog yn unol â threfniant telerau gwaith NJC. Dyddiad cychwyn 1af Hydref 2023.

Y clerch i drefnu anghenion gweinyddu yn cynnwys cyfrifiaduron ayb

[2.4] Materion Cynllunio

Adeiladu estyniad cefn deulawr. Glanllyn, Ffordd yr Hen Eglwys, Betws-y-Coed. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau i ddiwedd Mehefin 2023.

[b] Eglurodd y clerch bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol wedi gostwng ychydig yn gymharol i gyfnod mis Mehefin 2022.

[c] Nodwyd taflen yn amlinellu derbyniadau/gwariant blynyddol i ddiwedd y flwyddyn ariannol Mawrth 2023 a baratowyd gan y clerch

[d] Cymeradawyd adroddiad yr archwiliwr mewnol a'r ffurflen flynyddol i ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23

[2.6] Goleuadau Nadolig

Yn dilyn cyfarfod yr Is Bwyllgor penderfynwyd bwrw'n mlaen gyda'r argymhellion canlllynol;

[a] Gwneud cytundeb 5 mlynedd i logi goleuadau ar gyfer priffordd yr A5.

[b] Prynu goleuadau ar gyfer Pentre' Du. Mega Electrics l'w gosod

[c] Dim angen goleuadau ardduniad carw wrth Bont-y-Pair

Y clerch i geisio mwy o wybodaeth ynghlun a goleuo'r goeden ffinwydden yng nghanol yr afon.

[2.7] Cyflenwad Dwr l'r Rhaeadr Ewynno!

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Dwr Cymru.

[2.8] Culfannau Ffyrdd y Goedwig

Nodwyd y bydd Cyng Elisabeth Roberts yn mynychu cyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

Cadeirydd _____